



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Targed Arbedion Effeithlonrwydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Gofyn i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynllun gweithredu'r targed arbedion effeithlonrwydd.

2.0 Cefndir

2.1 Roedd cyllideb 2016/17 yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru i leihau cyfraniadau awdurdodau lleol at gyllideb graidd GwE o 1.6%, ac yn gosod targed arbedion cyfatebol i GwE.

2.2 Cynhwysir y targed arbedion effeithlonrwydd o £131,967 yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2017/18 o dan 'Arbedion i'w canfod'.

3.0 Cynllun Gweithredu

3.1 Ers ei sefydlu yn 2013/14, mae GwE wedi rheoli a gweinyddu cynnydd sylweddol a pharhaus yn nifer a gwerth y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn blaenoriaethau gwella ysgol a gyllidir drwy grantiau penodol a ffynonellau cyllid ychwanegol.

3.2 Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Gwella Addysg, y Grant Datblygu Disgyblion, Her Ysgolion Cymru, y TGAU/PISA newydd, Llythrennedd Gwyddonol, Ysgolion Arloesi, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, Athrawon Newydd Gymhwyso, Dysgu yn y Gymru Ddigidol, Rhaglen Llythrennedd Corfforol mewn ysgolion ac ati.

- 3.3 Mae cynlluniau cyfredol Llywodraeth Cymru am ei thymor pum mlynedd 2016/17 i 2020/21 yn cynnwys ymrwymiad o £100 miliwn o arian grant ar gyfer safonau ysgolion, h.y. y Grant Codi Safonau.
- 3.4. Bernir bod costau Rheoli a Gweinyddu yn wariant cymwys o fewn nifer o'r grantiau penodol hyn. Gan fod GwE wedi amsugno'r llwythi gwaith ychwanegol o fewn ei adnoddau staff presennol, yna gellir cyflawni'r targed arbedion effeithlonrwydd drwy gymhwyso elfennau o gostau staff cyfredol i'r grantiau penodol perthnasol.
- 3.5 Petai lleihad sylweddol mewn cynlluniau gwella ysgolion a gyllidir gan grantiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yna byddai angen adolygu (lleihau) y strwythur staffio bryd hynny.

4.0 Argymhelliad

- 4.1 Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cadarnhau cymhwyso elfennau o amser/costau rheolaeth, gweinyddu a phroffesiynol GwE i ddibenion a gyllidir gan grantiau, gan felly effeithio ar arbedion effeithlonrwydd i gyrraedd y targed o £131,967.

5.0 Goblygiadau Ariannol / Risgiau

- 5.1 Mae'r cynllun yn cyflawni'r targed Arbedion Effeithlonrwydd, ond mae'n ddibynnol ar fuddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru mewn blaenoriaethau gwella ysgol a gyllidir drwy grantiau penodol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Paratowyd yr adroddiad hwn drwy ymgynghori â swyddog cyllid statudol yr awdurdod lletyol, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylw o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi cydweithio gyda Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth baratoi'r adroddiad hwn, a rwyf yn cefnogi'r cynnwys.
